

Nicola Stubbins  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Sir Ddinbych  
Neuadd y Sir  
Ffordd yr Orsaf  
Rhuthun  
LL15 1YN

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Sir Ddinbych**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harchwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 28 Mehefin a 2 Gorffennaf 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

### **Trosolwg**

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen waith arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch pa mor dda y mae pobl yn cael eu diogelu a pha mor dda y mae eu llesiant yn cael ei hybu yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Rydym bob amser yn ystyried pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Pobl - Llais a Rheolaeth, Llesiant, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, ac yn seilio ein llythyrau a'n hadroddiadau ar y penawdau hynny.

### **Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hybu eu llesiant, yn ystod y pandemig?

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
✉ [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Office  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:**

**Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau?

Mae lleisiau'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych yn cael eu clywed ac maent yn cynnal rheolaeth dros y gofal a'r cymorth a gânt. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio gwasanaethau eirioli anffurfiol yn rheolaidd er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth o anghenion oedolion a phlant, a'r canlyniadau llesiant y mae pob un am eu cyflawni. Er i ni weld rhai enghreifftiau da lle roedd yr ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â phlant, gwelsom rai enghreifftiau lle mae angen cryfhau lleisiau'r plant.

Gwelsom lleisiau gofalwyr hefyd mewn rhai ffeiliau achos a gwelsom enghraifft dda o'r cymorth a ddarperir i'r gofalwr ochr yn ochr â chymorth i'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Mae lle i wella er mwyn sicrhau bod ymarferwyr bob amser yn cofnodi'r holl anghenion a nodwyd mewn cynlluniau gofal a chymorth; gan gynnwys yr anghenion hynny yr ystyrir eu bod yn gymwys os nad oedd y gofalwr/aelodau o'r teulu yn eu diwallu.

Mae pryderon o hyd ynghylch y ffordd orau o gynnal cydberthnasau cefnogol ag oedolion a phlant pan nad yw bob amser yn bosibl cyfarfod wyneb yn wyneb. Yn yr achosion hyn, rhoddir cynnig ar ymweliadau mewn gerddi a chyfleoedd creadigol eraill er mwyn parhau i ddarparu cymorth; gan gynnwys sicrhau bod mynediad at dechnoleg gwybodaeth ar gael a darparu cymorth i wella sgiliau.

Er gwaethaf rhywfaint o amharodrwydd cychwynnol gan oedolion a phlant i ymgysylltu drwy dechnoleg, heriau ynghylch diffyg offer, a'r ffaith bod rhai pobl yn dewis ymuno â chyfarfodydd dros y ffôn, clywsom fod sianeli cyfathrebu wedi parhau'n agored i raddau helaeth ac wedi gwella mewn rhai achosion.

Er gwaethaf llawer o bwysau cystadleuol, mae'n amlwg bod ymarferwyr yn parhau i ganolbwyntio asesiadau ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, a'u bod yn briodol yn rhoi pwyslais ar annog a chefnogi pobl i ystyried sut y gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i wella eu llesiant eu hunain.

Mae cynnwys asesiadau yn adlewyrchu sgwrs barhaus rhwng yr unigolyn, y gofalwr a'r ymarferydd ac weithiau ei deulu ehangach. Gwelsom fod hyn yn deillio o ddiwylliant cadarnhaol lle y caiff ymarferwyr eu hannog i weithio gyda phobl y mae angen cymorth arnynt ar lefel gydradd gan geisio cydgyhyrchu atebion wedi'u teilwra at amgylchiadau unigol.

Clywsom sut mae ymarferwyr wedi gwneud addasiadau i'w harfer a'u ffyrdd o weithio er mwyn gallu parhau i ymgysylltu â phlant ac oedolion drwy gyfnod a fu'n hynod anodd i bob un, fwy neu lai. Gan gynnwys, gweithio'n galed i greu amrywiaeth o gyfleoedd drwy'r

cyfryngau cymdeithasol ac apiau er mwyn sicrhau y gall pobl gadw mewn cysylltiad â'u gweithwyr cymdeithasol a pharhau i nodi beth sy'n bwysig iddynt.

Mae trefniadau lleol i gyflwyno'r adnodd asesu 'cynllun gofal a chymorth integredig' newydd mewn gwasanaethau oedolion yn gam cadarnhaol wrth gefnogi ymarferwyr er mwyn sicrhau bod eu hymateb i unigolion yn gymesur ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i reolwyr sicrhau y gall ymarferwyr gofnodi canlyniad yr asesiad ac unrhyw gyngor neu arweiniad a roddwyd ar yr adnodd asesu a chymhwysedd. Wrth i wasanaethau symud ymhellach tuag at integreiddio'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau, mae hefyd yn hanfodol bod rheolwyr yn gweithio gyda phartneriaid ehangach er mwyn sicrhau bod gwelliannau cadarnhaol a diwygiadau o ran adnoddau asesu yn gyson ar draws ôl troed y bwrdd iechyd lleol.

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol wedi parhau ac ymchwiliwyd iddi'n gynyddol yn ystod y pandemig fel ffordd o leihau unigrwydd rhai pobl, a darparu help i oresgyn rhwystrau corfforol a synhwyrdd i bobl ag anableddau cymhleth neu gyflyrau cronig. Mae dealltwriaeth newydd o'r ffordd y gall pobl ag anableddau dysgu, namau corfforol a synhwyrdd a phobl hŷn fwynhau a chael budd o ddefnyddio technoleg mewn ffordd na chawsant eu hystyried yn bosibl yn flaenorol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol na chawsant eu gwerthfawrogi'n flaenorol. Bydd yr awdurdod lleol am barhau i ystyried y maes gwaith hwn.

Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i lesiant y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae ymarferwyr oedolion yn rhoi ystyriaeth briodol i alluedd meddyliol pobl i gymryd rhan mewn ymholiadau diogelu, eu hasesiadau, a'r gwaith o gynllunio eu gofal a'u cymorth. Mae'r ymarferwyr yn parchu hawl unigolion i wneud yr hyn y gall eraill eu hystyried o bosibl yn benderfyniadau annoeth, gan gofnodi'r penderfyniadau hynny'n briodol.

Rydym yn cydnabod y diwylliant cadarnhaol o welliant parhaus y mae hyn yn ei gynrychioli ym maes diogelu oedolion yn Sir Ddinbych. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae'r tîm wedi'u goresgyn wrth gynnal y swyddogaeth ddiogelu, wrth symud i weithio'n rhithwir er budd diogelu'r bobl a allai fod ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ac sy'n wynebu risg o esgeulustod, camdriniaeth neu niwed.

Mae cynnal llesiant pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau yn hanfodol i'w gallu i barhau i ofalu a chefnogi eraill. Roedd yn amlwg mewn trafodaethau â rheolwyr ac ymarferwyr, ar yr adeg hon yn ystod pandemig COVID-19, er gwaethaf cymorth cadarnhaol parhaus gan reolwyr, fod llawer o bobl sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol wedi blino. Dywedodd rhai wrthym eu bod wedi blino'n lân, a'u bod yn teimlo wedi'u llethu gan yr hyn a fu'n gyfnod gofidus iawn iddynt gartref ac yn y gwaith. Mae'r ffaith bod cynifer o ymarferwyr

a rheolwyr wedi parhau yn eu rolau ac wedi ymgymryd â dyletswyddau newydd er mwyn helpu i ddiogelu eraill yn glod iddyn nhw ac i'r awdurdod lleol.

Rydym yn cydnabod ac yn annog ymdrechion cadarnhaol i gynnig cyfleoedd cyson i ymarferwyr ymgymryd â gweithgareddau ymarfer myfyriol, dysgu ar y cyd a chymorth cymheiriaid. Mae'r cyfarfodydd cymorth cymheiriaid o fewn y timau adnoddau cymunedol yn enghraifft gadarnhaol iawn o'r ffordd y gall cydweithio fel tîm a dysgu ar y cyd arwain at yr ymateb cywir ar yr adeg gywir, ac at ffordd fwy effeithlon o wella canlyniadau i bobl.

Er gwaethaf yr heriau, dywedodd ymarferwyr yn yr awdurdod lleol wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr ymdrechion sylweddol a wnaed i hyrwyddo eu llesiant. Mae'r cyfathrebu yn y timau a rhyngddynt yn dda, a chadarnhaodd unigolion fod y gwasanaethau yn dal i gael eu harwain mewn ffordd gadarnhaol ar y cyfan. Roedd penderfyniad cynnar i symud i ddefnyddio technoleg gwybodaeth yn fenter gadarnhaol, gan alluogi pobl i ymgyswyo'n gyflym â ffyrdd newydd o gynnal cydberthnasau gwaith cadarnhaol yn y timau a rhyngddynt.

Mae'n amlwg bod y rheolwyr a'r ymarferwyr eisoes yn cydnabod buddiannau gweithio'n rhithwiro ran defnyddio eu hamser yn fwy effeithiol ac effeithlon, a'u bod yn cydbwysu'r buddiannau â dealltwriaeth empathetig o sut y bu'n haws i rai unigolion addasu i weithio'n rhithwir nag eraill. Clywsom sut mae gweithio gartref wedi gwneud i rai pobl deimlo'n unig, a sut y llwyddodd rhai unigolion i addasu'n gyflym iawn ac i allu cymell eu hunain yn llawer gwell nag y bydden nhw eu hunain wedi'i ragweld hyd yn oed.

Yn benodol, mae mwy o ddefnydd o weithio'n rhithwir wedi rhyddhau amser teithio. Mae'r ymarferwyr a'r rheolwyr yn disgrifio sut mae rhyddhau amser teithio wedi gwella hygyrchedd cydweithwyr, rheolwyr a phartneriaid allanol. Dywedodd y rhan fwyaf o bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwerthfawrogi buddiannau treulio llai o amser yn gyrru.

Mae presenoldeb cynyddol partneriaid allanol mewn cyfarfodydd allweddol, gan gynnwys cyfarfodydd diogelu oedolion a phlant a chyfarfodydd y tîm adnoddau cymunedol, yn un o fuddiannau allweddol gweithio'n rhithwir. Mae'n ategu cyfrifoldeb ehangach yr awdurdod lleol o ran datblygu cynaliadwy ac mae'n werth ystyried cadw'r trefniadau hyn wrth i wasanaethau symud tuag at normal newydd.

**Atal – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hyrwyddo prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Yr heriau allweddol sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw pwysigrwydd gwasanaethau ataliol amserol a phwysigrwydd sicrhau bod cymorth ar gael i hyrwyddo cyfleoedd i blant gael eu magu fel rhan o'u teulu yn eu cymunedau eu hunain.

Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn cydnabod pwysigrwydd cadw plant yn eu teuluoedd lle bo hynny'n bosibl, ac maent wedi datblygu diwylliant lle y cydnabyddir mai hyrwyddo cymorth ac ymyrraeth gynnar sy'n cynnig y cyfle gorau i blant aros yn eu teuluoedd.

Mae ffocws cryf ar ystyried cyfleoedd i berthnasau ofalu am blant, a chaiff nifer sylweddol o blant eu lleoli gyda rhieni, gan gynnig lefelau uchel o gymorth gan amrywiaeth o asiantaethau iddynt; gan gynnwys ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgol, a gwasanaethau cymorth i deuluoedd er mwyn sicrhau canlyniadau da i blant.

Gwelsom dystiolaeth o rywfaint o waith cadarnhaol iawn yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal a'u rhieni maeth, gan ddangos dealltwriaeth dda o fuddiannau gwaith therapiwtig i blant a theuluoedd. Gwelsom enghreifftiau o lesiant emosiynol plant yn gwella gydag ymyrraeth o'r fath, gan gynnwys asesiadau 72 awr a'r ymdrechion penodol a wnaed gan ymarferwyr er mwyn galluogi teuluoedd i feithrin eu sgiliau a magu eu plant o fewn eu teuluoedd eu hunain.

Fodd bynnag, nid yw chwilfrydedd proffesiynol o ran gwaith cymdeithasol, trefniadau recordio na'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn gyson dda ym mhob maes o wasanaethau plant. Gwelsom nifer o atgyfeiriadau credadwy yn cael eu cyflwyno a'u hailgyflwyno ar gyfer yr un plant cyn i'r atgyfeiriadau gael eu derbyn ac i'r camau priodol gael eu cymryd.

Roedd rheolwyr gwasanaethau plant yn ymwybodol o'r anghysondeb hwn ac maent eisoes wedi dechrau cymryd camau i ysgogi gwelliant. Gyda'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y gwiriad sicrwydd hwn, gwelsom fod yr uwch-reolwyr yn gweithredu mewn modd penderfynol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu ac i gryfhau eu cynllun er mwyn cyflawni gwelliannau cynaliadwy o ran ymarfer gwaith cymdeithasol yn y maes hwn o'r gwasanaeth.

Rhaid i'r cynllun gweithredu fwrw ati'n gyflym i ddarparu gwell ffocws ar blant unigol, dadansoddiadau mwy cadarn, a threfniadau ar gyfer cofnodi risg a phenderfyniadau allweddol. Rhaid cryfhau trefniadau goruchwylio rheolwyr a dylid adfer yr archwiliadau ansawdd a ataliwyd am gyfnod yn ystod pandemig COVID-19.

Gwnaethom godi anghysondebau ymarfer gyda'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a roddodd sicrwydd ar unwaith y byddai'n ymateb yn gyflym i unrhyw ddiffygion a nodwyd. Rydym yn cydnabod bod gwaith da iawn yn mynd rhagddo yn yr awdurdod lleol, a bod y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael â phryderon eisoes yn bodoli yn y gwasanaeth. Rhaid i welliannau i'w gwneud ar unwaith sicrhau bod plant yn cael eu diogelu, ac er mwyn gwneud hyn, rhaid i ymarferwyr ddatblygu neu adnewyddu eu sgiliau yn gyflym. Rhaid ceisio sicrhau bod hwn yn brofiad dysgu cadarnhaol ac y bydd gwelliannau cynaliadwy o ran ymarfer yn deillio ohono.

Mae'r heriau o recriwtio ymarferwyr â chymwysterau addas i wasanaethau oedolion a phlant yn ychwanegu at bwysigrwydd datblygu sgiliau a gwybodaeth pobl sydd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae swyddi gwag cyfredol ym maes gwasanaethau oedolion a

phlant yn ychwanegu at y pwysau llwyth gwaith ar unigolion mewn timau ac yn achosi oedi wrth wneud rhai gwelliannau i'r gwasanaeth.

Mewn ymateb, mae'r rheolwyr yn disgrifio cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i'r awdurdod lleol dyfu ei weithlu proffesiynol ei hun a dechrau ei gynllun ar gyfer gwneud hynny. Mae'r cynllun yn deillio o gydnabod sgiliau a phrofiad gweithwyr cymorth sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i gamu ymlaen i rolau proffesiynol, ond nad oes ganddynt y sicrwydd ariannol i allu gadael cyflogaeth a mynychu'r brifysgol.

Mae'r trefniadau o ran uwch-reolwyr gwasanaethau plant mewn cyfnod o drawsnewid o hyd, yn sgil datblygiad naturiol deiliaid swyddi blaenorol. Bydd angen i'r arweinwyr sicrhau bod trafod unrhyw swyddi gwag a threfniadau rheoli dros dro yn cael eu blaenoriaethu.

**Partneriaethau ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun yr achubir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig mewn modd cynaliadwy?

Mae tystiolaeth o waith partneriaeth cadarnhaol rhwng ymarferwyr mewn asiantaethau gwahanol, a rhwng ymarferwyr a theuluoedd. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r cysylltiadau a ddatblygwyd rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol plant yn darparu enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd y gall gwaith partneriaeth helpu plant a theuluoedd i aros mewn cysylltiad, ac y gallant gael gafael ar wasanaethau pan fydd eu hangen arnynt.

Dywedodd darparwyr gofal a chymorth wrthym sut y maent yn gweithio'n dda gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, gan nodi eu bod yn agored ac yn onest, yn barod i fod yn hyblyg ac i helpu i ddatrys heriau wrth iddynt godi. Mae rhai darparwyr o'r farn bod y cydberthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, wrth i nifer y cyfarfodydd angenrheidiol gynyddu ac wrth iddynt gyfathrebu'n hwylus er budd y bobl y mae angen cymorth arnynt, a'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth.

Mae'r ffyniant o ran trefniadau gweithio cadarnhaol gyda phartneriaid statudol yn ystod COVID-19 yn rhannol oherwydd y sylfeini da a osodwyd yn ystod y camau cynllunio a datblygu cynnar ar gyfer y Timau Adnoddau Cymunedol. Mae'n ymddangos bod argyfwng allanol a rennir wedi creu mwy o awydd i weithredu ac wedi ysgogi newid yn llawer cyflymach nag a oedd yn bosibl yn flaenorol.

Mae ymgysylltiad cynyddol amrywiaeth o gydweithwyr yng nghyfarfodydd rhithwir y Tîm Adnoddau Cymunedol yn un enghraifft dda iawn a welsom ar waith. Bydd yr arweinwyr nawr yn ceisio manteisio ar gyflawniadau diweddar i adolygu cynlluniau strategol, gan chwilio am gyfleoedd newydd i ddarparu gwasanaethau hawliau ar yr adeg gywir.

Mae pwysau allanol ar y gwasanaeth, gan gynnwys llai o adnoddau a galw cymhleth, yn creu heriau sylweddol. Mae rhai materion yn wynebu argyfwng ac mae creadigrwydd y tîm rheoli yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Mewn rhai ardaloedd daearyddol yn Sir Ddinbych, mae'r anallu i recriwtio staff gofal cartref yn golygu bod y galw yn fwy na'r cyflenwad, ac mae'n rhaid i rai pobl aros yn rhy hir am wasanaethau y maent yn gymwys i'w cael. Ar adegau, mae hyn yn rhoi rhagor o bwysau ar ofalwyr teulu, a gall arwain at gydbertynas neu deulu yn chwalu ac at anghenion yn cynyddu. Yn gyffredinol, mae diffyg argaeledd gwasanaethau gofal cartref yn golygu na all yr awdurdod lleol hyrwyddo llais a dewis i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, ac sydd am aros yn eu cartrefi eu hunain.

Mae opsiynau llety i unigolion yn parhau i fod yn her yn Sir Ddinbych. Gwnaethom adolygu ffeiliau achos dau berson ifanc y mae eu cyfeiriad cartref mewn llety gwely a brecwast. Rhaid i'r awdurdod lleol a phartneriaid ehangach ystyried sut y darperir ymateb mwy addas i bobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, esgeulustod a chamdriniaeth yn Sir Ddinbych.

Mae cyfleoedd i adeiladu gallu cymunedol wedi dod i'r amlwg wrth i swyddogion cynghorau o bob rhan o'r awdurdod lleol helpu i ymateb i bobl agored i niwed y mae angen cymorth arnynt. Clywsom sut y gwnaeth rhai pobl elwa ar ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl y mae angen cymorth arnynt a sut roeddent yn awyddus i ystyried sut y gallent barhau i wneud hynny. Cyflawniad cadarn y mae swyddogion awdurdodau lleol am ei ddefnyddio i greu cyfleoedd gwirfoddoli.

Wedi'i sbarduno gan heriau allanol a'u hymrwymiad eu hunain i lwyddo, mae uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn parhau i arwain yn hyderus ac i ddatblygu atebion cynyddol greadigol yn gyflym. Mae gan y gwasanaethau oedolion dîm rheoli profiadol a sefydlog. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u dyletswyddau statudol ac maent yn dangos ymrwymiad parhaus i wneud yn siŵr bod gwasanaethau yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl.

Clywsom sut mae pob rheolwr yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bartneriaid statudol a thrydydd sector, gan gynnal deialog agored a gonest â buddiannau amlwg i bobl. Wrth ymateb i'r heriau, rhaid i'r arweinwyr a'r uwch-reolwyr barhau i ganolbwyntio ar bwysigrwydd cyflawni eu dyletswyddau statudol.

#### **Dull:**

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â phobl, rhai pobl sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.
- gwnaethom edrych ar 33 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal trafodaethau olrhain achosion ar 11 o ffeiliau achos
- gwnaethom siarad â mwy na phump aelod o staff proffesiynol
- gwnaethom gynnal saith trafodaeth â grwpiau ffocws

## **Y Camau Nesaf**

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal yr archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

**Arolygiaeth Gofal Cymru**